

Tasg 1

(Heriol, sbardun 3)

Pennill 1

1. Chwiliwch am y llinellau lle mae'r bardd yn dweud:
 - i) Rydyn ni'n caru dyn o wlad arall.
 - ii) Ein brenin yw'r un sydd wedi ein concro ni.
 - iii) Buaset ti'n wylo gwaed petaset ti'n gweld hyn.
2. Beth sydd wedi digwydd i'r Cymry, yn ôl y bardd (*y cwpled olaf*)?

Pennill 2

3. Chwiliwch am y llinellau lle mae'r bardd yn dweud:
 - i) Does dim byd i'w wneud/i boeni amdano, dim ond ymddwyn yn dda.
 - ii) Rydyn ni'n gwenu ar deulu brenhinol Lloegr.
 - iii) Rydyn ni'n ymddwyn fel gweision ac yn ofalus.
 - iv) Does gennyn ni ddim hanes/cefndir .

Pennill olaf

4. Pam mae'r cledd 'yn wridog'?
5. Beth mae'r bardd yn fodlon ei wneud dros Gymru?
6. Yn eich barn chi, beth yw bwriad Gerallt Lloyd Owen wrth ysgrifennu'r gerdd hon?

Rhagor am yr arwisgo:

Atgofion Ioan Roberts, Gohebydd y Cymro yn 1969.

http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themâu/enwogion/arwisgiad69_3.shtml